# Dadansoddiad lefel uchel o ddata ar addasiadau tai 2020-21

GORFFENNAF 2024

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r defnydd o addasiadau mewn cartrefi yn galluogi pobl i fyw'n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Gallant helpu i atal cwympiadau, a all arwain at berson yn gorfod cael ei dderbyn i'r ysbyty ar frys neu symud i gartref gofal preswyl. Gallant hefyd helpu pobl i ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am addasiadau tai gan ddarparwyr addasiadau. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau dadansoddiad o'r data ar gyfer 2020-21. Mae'r dadansoddiad yn ymwneud ag addasiadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

Cafwyd gwybodaeth gan 68 o'r 69 o ddarparwyr: pob un o'r 13 o asiantaethau Gofal a Thrwsio, pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, pob un o'r 23 o gymdeithasau tai traddodiadol, a 10 o'r 11 o gyrff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr a ddaeth yn berchnogion ar dai cyngor blaenorol. O blith y 10 o gyrff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr a gyflwynodd ddatganiad, ni chyflwynodd tri unrhyw ddata. Felly, er bod yr adroddiad hwn yn rhoi darlun cenedlaethol cynhwysfawr o'r addasiadau tai a wnaed, nid yw'n ddarlun cyflawn.

Yn 2018-19, cafodd 22% o'r cofnodion a gafwyd eu dileu am eu bod yn gofnodion dyblyg neu y tu hwnt i'r cyfnod casglu. Yn 2019-20, cafodd 8% o'r cofnodion (n=2,900) eu dileu. Yn 2020-21, cafodd 4.4% o'r cofnodion (n=1,443) eu dileu.

**Effaith COVID-19**

Clefyd a achosir gan y coronafeirws SARS-CoV-2 yw COVID-19. Cadarnhawyd bod y feirws ar led yn y DU ym mis Ionawr 2020 a chafodd ei ddisgrifio'n bandemig gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth. Cofnodwyd y marwolaethau cyntaf yn y DU ym mis Mawrth. Daeth gorchymyn aros gartref neu gyfyngiadau symud a orfodwyd yn gyfreithiol i rym ar 23 Mawrth, wythnos cyn dechrau'r cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef. Roedd y cyfyngiadau cyfreithiol yn cyfyngu'n ddirfawr ar symudiadau pobl y tu allan i'r cartref. Gorfodwyd busnesau mewn rhai sectorau fel lletygarwch i gau yn llwyr a chyfyngwyd ar allu y rhan fwyaf o fusnesau i weithredu. Yn gynnar ym mis Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i ddarparwyr addasiadau yn nodi mai dim ond mewn achosion brys y dylid gwneud addasiadau.

Yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf a'r rhai dilynol, cafodd rhai o gyflogeion cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio eu rhoi ar ffyrlo, a chaeodd llawer o fusnesau adeiladu bach i bob pwrpas wrth i'w holl gyflogeion gael eu rhoi ar ffyrlo. Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod swyddogion a oedd yn ymwneud â gweinyddu addasiadau a gwasanaethau tai eraill wedi cael eu symud i rolau hanfodol mewn perthynas â COVID-19, fel dosbarthu prydau ysgol am ddim i deuluoedd a chefnogi gwasanaethau gofal. Bu tarfu difrifol ar gadwyni cyflenwi deunyddiau a chyfarpar, o ganlyniad i bandemig COVID-19 ac effaith Brexit, a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2020.

Llaciodd cyfyngiadau'r coronafeirws ar ddiwedd y gwanwyn a dechrau'r haf ond cynyddodd nifer yr achosion unwaith eto yn ystod yr hydref. Cyhoeddwyd cyfnod atal byr o dair wythnos yng Nghymru ar ddiwedd yr Hydref, ac yn dilyn hynny, cyhoeddwyd cyfyngiadau symud am y trydydd tro o 20 Rhagfyr (heb gynnwys Dydd Nadolig), a ddechreuodd lacio o ganol mis Mawrth ymlaen, ychydig cyn diwedd y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef.

Yn ystod ail hanner 2020-21, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr addasiadau yn cofnodi llai o weithgarwch o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ac ôl-groniad cynyddol o achosion. Y rhesymau a roddwyd oedd cyfyngiadau ar weithio yng nghartrefi pobl eraill, pryder ymhlith cleientiaid (yr oedd llawer ohonynt ar y rhestr warchod) am ganiatáu i bobl ddod i mewn i'w cartref, tarfu ar gadwyni cyflenwi deunyddiau a chyfarpar, a phrinder contractwyr a staff.

## Y prif ganfyddiadau

- Gwnaed 31,263 o addasiadau yn 2020-21, sef 9% yn llai na'r hyn a wnaed yn 2019-20.

- Yn 2020-21, cafodd y rhan fwyaf o addasiadau eu darparu gan asiantaethau Gofal a Thrwsio (67%) neu awdurdodau lleol (26%). Yn 2020-21, cafodd cyfran lai o addasiadau eu darparu gan gymdeithasau tai (7%), sef yr un peth â 2019-20. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae cyfran yr addasiadau sydd i'w priodoli i asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi cynyddu (o 55% i 67%) ac mae'r gyfran sydd i'w phriodoli i awdurdodau lleol wedi gostwng (o 37% i 26%).

- Costiodd y rhan fwyaf o'r addasiadau a ddarparwyd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol £500 neu lai (95%).  Roedd y gyfran hon yr un peth â 2019-20.

- Yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, cafodd 84% o addasiadau eu darparu o fewn tri mis a chafodd 97% eu darparu o fewn blwyddyn. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer yr addasiadau a gymerodd fwy na dwy flynedd a hanner (30 mis) i'w darparu, o 2 i 24. Gellir priodoli hyn i oedi o ran gwaith presennol a achoswyd gan bandemig COVID-19

- Ar gyfartaledd (canolrif), cymerodd 7 diwrnod i ddarparu addasiad bach yn 2020-21, o gymharu ag 8 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol. Ar gyfartaledd, cymerodd 159 o ddiwrnodau i ddarparu addasiad canolig (o gymharu â 124 o ddiwrnodau yn y flwyddyn flaenorol) a chymerodd 391 o ddiwrnodau i ddarparu addasiadau mawr (o gymharu â 242 o ddiwrnodau yn y flwyddyn flaenorol). Roedd cyfyngiadau COVID-19 yn fwy tebygol o fod wedi effeithio ar addasiadau canolig a mawr.

- Cost gyfartalog (ganolrifol) addasiad bach oedd £117, a chost gyfartalog addasiad canolig ac addasiad mawr oedd £3,840 ac £16,237, yn y drefn honno.

- Cynyddodd cost gyfartalog (ganolrifol) addasiadau awdurdodau lleol o £425 i £597 rhwng 2018-19 a 2020-21, ond cost addasiadau cymdeithasau tai a gynyddodd fwyaf dros y cyfnod hwn, o £340 i £1,621.

- Cafodd mwy na hanner yr addasiadau a wnaed yn 2020-21 eu hariannu gan y Rhaglen Addasiadau Brys (38%) neu awdurdodau lleol o'u cyllidebau eu hunain (20%). Cafodd cyfran lai o addasiadau eu hariannu gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Hwyluso (15%) a'r Gronfa Gofal Integredig (6%).

- Y prif ganlyniad a ragwelwyd amlaf ar gyfer addasiad oedd 'atal cwympiadau' (a ragwelwyd mewn 42% o achosion), a 'mwy o annibyniaeth mewn bywyd bob dydd' (a ragwelwyd mewn 34% o achosion). Fodd bynnag, ni all y data hyn ddangos manteision ataliol hirdymor addasiadau. Er enghraifft, gall atal person oedrannus rhag cwympo gartref hefyd osgoi'r angen iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty neu symud i gartref gofal preswyl.

- Cafodd y rhan fwyaf o addasiadau eu gwneud mewn anheddau sy'n eiddo i berchen-feddianwyr (80%). Dim ond cyfran fach o addasiadau a wnaed yn y sector rhentu preifat (2.5%). Mae hyn yn awgrymu nad yw'r sector rhentu preifat yn cael ei wasanaethu cystal o bosibl, o ystyried bod cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat yn cyfrif am 13% o'r holl stoc dai yng Nghymru.[1]

- Mewn 171 o achosion (llai nag 1%), cyfrannodd defnyddwyr gwasanaethau yn ariannol at gost yr addasiad.

- O ganlyniad i COVID-19, bu lleihad yn nifer yr ymatebion i'r arolwg boddhad cwsmeriaid o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 35% yn 2019-20 i 22% yn 2020-21. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr y gwnaed addasiad i'w cartref a roddodd adborth yn fodlon ar y gwaith a wnaed (98%), sef cynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (92%). Nododd llai nag 1% o'r ymatebwyr eu bod yn anfodlon.

[1] Canrannau amcangyfrifedig o'r stoc anheddau yn ôl blwyddyn a deiliadaeth (llyw.cymru)

# Cyflwyniad

1. Mae addasiadau tai yn chwarae rôl hollbwysig ym mywydau pobl. Maent yn helpu pobl ag anableddau a phobl hŷn i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartref eu hunain. Maent yn cadw pobl yn ddiogel drwy atal damweiniau fel cwympiadau, sy'n helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty oherwydd anaf ac yn lleihau'r pwysau ar y GIG. Gall addasiadau hefyd helpu i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty fel bod pobl yn gallu dychwelyd adref cyn gynted â phosibl. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod pandemig y coronafeirws. Cyflwynwyd y cyfyngiadau symud cyntaf i reoli'r brigiad o achosion o COVID-19 ar 23 Mawrth 2020, ychydig cyn y cyfnod adrodd hwn, ac roedd y feirws yn dal i gael effaith fawr iawn ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn.

2. Mae addasiadau yn gwneud cyfraniad sylweddol at ansawdd bywyd pobl yn ogystal â'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Maent yn cefnogi blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, a nodir yn 'Ffyniant i Bawb'[2] a 'Cymru Iachach'[3]. Maent yn cyfrannu at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae atal yn elfen greiddiol ohoni,[4] a Deddf Cydraddoldeb 2010, y mae oedran ac anabledd yn ddwy o'r nodweddion gwarchodedig a nodir ynddi.

## Yr adroddiad hwn

3. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o ddata ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Cafodd y data crai a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru eu glanhau a'u dilysu gan Data Cymru.

## Data

4. Dyma'r pedwerydd adroddiad yn y gyfres o adroddiadau blynyddol. Casglwyd y data rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

5. Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn ar gyfer addasiadau tai a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, asiantaethau Gofal a Thrwsio a chymdeithasau tai, gan gynnwys cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr a ddaeth yn berchnogion ar stoc dai rhai awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys addasiadau ar draws deiliadaethau tai: pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, y rheini sy'n berchen ar eu cartref eu hunain a'r rheini sy'n rhentu'n breifat.

6. Cesglir y data canlynol i fonitro'r rhaglen:

   - Darparwr/sefydliad cyflawni.
   - Deiliadaeth tai e.e. tai cymdeithasol; cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr; cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat.
   - Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer yr addasiad(au).
   - Y canlyniad a ragwelwyd e.e. atal cwympiadau; mwy o annibyniaeth.
   - Y math o addasiad a'i faint e.e. bach; canolig; mawr.

[2] Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol
[3] Llywodraeth Cymru (2019) Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol
[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Yr amser a gymerodd i gwblhau'r addasiad(au).
- Cost yr addasiad(au).
- Ffynhonnell y cyllid
- Boddhad â'r addasiad(au).

7. At ddibenion adrodd, mae'r addasiadau wedi'u rhannu'n dri chategori, a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru, [addasiadau-tai-safonau-gwasanaeth.pdf (llyw.cymru)](addasiadau-tai-safonau-gwasanaeth.pdf)

   - Bach e.e. canllawiau cydio, canllawiau ar gyfer grisiau, rampiau bach ac ati.
   - Canolig e.e. cawod heb ris i fynd i mewn iddi, lifftiau grisiau, rampiau mawr.
   - Mawr e.e. newidiadau strwythurol mawr i eiddo, gan gynnwys estyniadau.

## Cyfyngiadau'r data

### Cwmpas y data

8. Roedd set ddata 2020-21 y cynnwys gwybodaeth am tua 31,000 o addasiadau, o gymharu â thua 34,000 yn 2019-20. Mae hyn yn ostyngiad o 9% ac mae'n adlewyrchu'r heriau a grëwyd gan gyfyngiadau COVID-19 o ran addasiadau i gartrefi.

9. Cafwyd datganiadau gan bob un o'r 13 o asiantaethau Gofal a Thrwsio, pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, pob un o'r 23 o gymdeithasau tai traddodiadol a 10 o'r 11 o sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr, a ffurfiwyd i reoli'r stoc dai sy'n eiddo i'r cyngor.

### Ansawdd y data

10. Cyn ei dadansoddi, cafodd y set ddata ei dilysu'n drylwyr er mwyn nodi a, lle y bo'n bosibl, gywiro data annilys, cofnodion dyblyg, cofnodion anghyflawn a gwallau penodol eraill o ran y data. Yn 2020-21, cafodd 4% o gofnodion eu dileu, o gymharu â 22% yn 2018-19 ac 8% yn 2019-20.

11. Er bod y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn yr arolwg wedi'u nodi'n rhai gorfodol, nid oedd pob un o'r 31,263 o ymatebion sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn yn gyflawn neu'n ddilys. Felly, mae rhai pwyntiau data wedi'u categoreiddio'n ddata coll neu annilys. Roedd rhai adrannau o'r arolwg yn fwy tebygol o fod yn anghyflawn nag eraill. Mae'r rheini â'r gyfran uchaf o ddata coll neu annilys yn cynnwys a oedd angen i'r ymgeisydd wneud cyfraniad ariannol (13%) a'r amser a gymerodd i gwblhau'r addasiadau (12%). Nodir drwy gydol yr adroddiad lle nad yw cofnodion ag eitemau data coll neu annilys wedi'u cynnwys.

# Dadansoddiad

12. Dyma ddadansoddiad disgrifiadol o ddata 2020-21. Dangosir data o adroddiadau blaenorol mewn rhai rhannau hefyd.

## Addasiadau tai a ddarparwyd

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys pob un o'r 31,263 o gofnodion.**

13. Cafodd mwy na 31,000 o addasiadau eu cwblhau yn 2020-21. Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr addasiadau a gofnodwyd yn ôl math o ddarparwr.

14. Cafodd y rhan fwyaf o'r addasiadau eu darparu gan asiantaethau Gofal a Thrwsio (67%) neu awdurdodau lleol (26%), a chafodd cyfran lai o addasiadau eu cyflawni gan gymdeithasau tai (7%).

15. Mae nifer yr addasiadau a gofnodwyd yn 2020-21 yn llai na'r hyn a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu effaith cyfyngiadau COVID-19 ar allu darparwyr i ymweld â chartrefi pobl eraill a gweithio ynddynt.

**Tabl 1: Nifer a chanran yr addasiadau a gofnodwyd, yn ôl math o ddarparwr, rhwng 2018-19 a 2020-21**

| Math o ddarparwr | 2018-19 | | 2019-20 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer. | % | Nifer. | % | Nifer. | % |
| Gofal a Thrwsio | 19,901 | 65.8 | 18,864 | 54.9 | 20,894 | 66.8 |
| Awdurdod lleol | 8,504 | 28.1 | 12,551 | 36.6 | 8,241 | 26.4 |
| Cymdeithas dai | 1,747 | 5.8 | 2,926 | 8.5 | 2,128 | 6.8 |
| Darparwr heb ei enwi | 83 | 0.3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **30,235** | **100** | **34,341** | **100** | **31,263** | **100** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Cost yr addasiadau

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon o'r adroddiad yn cynnwys 30,986 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 277 o gofnodion (0.8%) â gwerthoedd cost coll neu annilys.**

16. Mae Tabl 2 yn dangos cost gyfartalog (cymedrig a chanolrifol) addasiad yn ôl math o ddarparwr. Ystyrir mai'r gwerth canolrifol ('gwerth canolig') yw dangosydd gorau cost gyfartalog oherwydd gall y ffigur cymedrig gael ei sgiwio gan nifer bach o addasiadau costus iawn.

**Tabl 2: Cost gyfartalog addasiadau a gofnodwyd, yn ôl math o ddarparwr, rhwng 2018-19 a 2020-21**

| Math o ddarparwr | 2018-19 | | 2019-20 | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymedrig £ | Canolrifol £ | Cymedrig £ | Canolrifol £ | Cymedrig £ | Canolrifol £ |
| Gofal a Thrwsio | 194 | 100 | 204 | 104 | 246 | 108 |
| Cymdeithas Dai | 2,370 | 340 | 2,990 | 1,080 | 3,120 | 1,621 |
| Awdurdod Lleol | 2,759 | 425 | 2,857 | 524 | 2,888 | 597 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 30,986 o gofnodion ar gyfer 2020-21 (nid yw'n cynnwys 122 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

17. Fel y nodir yn Nhabl 2, asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n darparu addasiadau llai o faint, llai costus fel arfer, tra bod asiantaethau tai ac awdurdodau lleol yn darparu nifer llai o addasiadau mwy o faint, mwy costus.

18. Mae Tabl 2 yn adlewyrchu costau cynyddol addasiadau dros y cyfnod o dair blynedd. Yn benodol, rhwng 2018-19 a 2020-21, mae cost ganolrifol addasiad a ddarparwyd gan gymdeithas dai wedi cynyddu dros bedair gwaith (o £340 i £1,621). Dros yr un cyfnod o dair blynedd, mae cost ganolrifol addasiad a ddarparwyd gan awdurdod lleol wedi cynyddu ar gyfradd arafach (o £425 i £597).

19. Mae Tabl 3 yn dangos sut mae'r addasiadau drutaf yn ôl math o ddarparwr wedi newid dros y cyfnod o dair blynedd. Rhwng 2018-19 a 2020-21, mae cost yr addasiad drutaf a ddarparwyd gan gymdeithas tai wedi mwy na dyblu (o £78,247 i £183,811).


**Tabl 3: Cost uchaf addasiadau a gofnodwyd yn ôl math o ddarparwr, rhwng 2018-19 a 2020-21**

| Math o ddarparwr | 2018-19 £ | 2019-20 £ | 2020-21 £ |
|---|---|---|---|
| Gofal a Thrwsio | 43,516 | 32,790 | 35,605 |
| Cymdeithas Dai | 78,247 | 122,216 | 183,811 |
| Awdurdod Lleol | 109,279 | 158,818 | 116,720 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 30,986 o gofnodion ar gyfer 2020-21 (nid yw'n cynnwys 122 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

20. Mae Siart 1 yn dangos cyfran yr addasiadau a ddarparwyd yn ôl band cost ar gyfer pob darparwr, rhwng 2018-19 a 2020-21.

**Siart 1: Cyfran yr holl addasiadau yn ôl band cost, rhwng 2018-19 a 2020-21**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 30,986 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 122 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

21. Costiodd dwy ran o dair o'r holl addasiadau tai (66%) £250 neu lai.

22. Mae Tabl 4 yn dangos nifer yr addasiadau a ddarparwyd yn 2020-21 yn ôl y tri math o ddarparwr ym mhob un o'r bandiau cost.

23. Costiodd 95% o'r addasiadau a ddarparwyd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio £500 neu lai, yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

24. Darparodd awdurdodau lleol fwy o addasiadau ym mhob un o'r bandiau cost uwchlaw £500 nag unrhyw un o'r darparwyr eraill. Cafodd 4 o bob 5 addasiad a gostiodd fwy na £10,000 eu darparu gan awdurdodau lleol.

**Tabl 4: Nifer yr addasiadau yn ôl darparwr a chost gyffredinol, 2020-21**

| Cost gyffredinol | Awdurdod Lleol | Cymdeithas Dai | Gofal a Thrwsio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| <£50 | 320 | 181 | 2754 | 3255 |
| £50.01 - £100 | 961 | 225 | 6964 | 8150 |
| £100.01 - £250 | 1543 | 320 | 7143 | 9006 |
| £250.01 - £500 | 978 | 145 | 2788 | 3911 |
| £500.01 - £1000 | 859 | 92 | 714 | 1665 |
| £1000.01 - £2500 | 835 | 276 | 151 | 1262 |
| £2500.01 - £5000 | 985 | 395 | 107 | 1487 |
| £5000.01 - £7500 | 860 | 311 | 96 | 1267 |
| £7500.01 - £10,000 | 347 | 54 | 24 | 425 |
| >£10,000 | 447 | 84 | 27 | 558 |
| **Cyfanswm** | 8135 | 2083 | 20768 | 30986 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 30,986 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 122 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 29,878 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 1,385 o gofnodion (4%) â gwerthoedd cost neu faint coll neu annilys.**

25. Mae Tabl 5 yn crynhoi cost gyfartalog (ganolrifol) addasiadau yn ôl maint y gwaith. Mae'r categorïau o addasiadau bach, canolig a mawr wedi'u diffinio yn nogfen Llywodraeth Cymru, *Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai.* Mae addasiadau mawr yn cynnwys newidiadau strwythurol mawr i eiddo, gan gynnwys estyniadau. Mae addasiadau canolig yn cynnwys cawod heb ris i fynd i mewn iddi, lifftiau grisiau a rampiau. Mae addasiadau bach yn cynnwys canllawiau cydio a blychau cadw allweddi’n ddiogel.

**Tabl 5: Cost gyfartalog addasiadau yn ôl maint, 2020-21**

| Math o addasiad | 2018-19 £ | 2019-20 £ | 2020-21 £ |
|---|---|---|---|
| Mawr | 12,731 | 14,916 | 16,237 |
| Canolig | 4,631 | 4,700 | 3,840 |
| Bach | 105 | 125 | 117 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 29,878 o gofnodion ar gyfer 2020-21 (nid yw'n cynnwys 1,385 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

26. Yn gyffredinol, mae cost addasiad yn cynyddu gyda maint yr addasiad. Yn 2020-21, cynyddodd cost gyfartalog addasiad mawr 9% (o £14,916 yn 2019-20 i £16,237 yn 2020-21) a lleihaodd cost gyfartalog addasiad canolig 18% (o £4,700 i £3,840). Bu lleihad bach yng nghost gyfartalog addasiad bach (o £125 i £117).


## Ffynhonnell yr atgyfeiriad

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 30,918 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 345 o gofnodion (1%) â gwerthoedd atgyfeirio coll neu annilys.**

27. Mae nifer o ffynonellau atgyfeirio gwahanol ar gyfer addasiadau tai. Mae hyn yn cynnwys hunanatgyfeiriad gan rywun sy'n teimlo bod angen cymorth arno a chan weithwyr proffesiynol mewn sefydliadau tai, iechyd a gofal cymdeithasol, a all gwrdd â pherson y mae angen cymorth arno. Mae Siart 2 yn dangos ystod a graddfa gymharol yr atgyfeiriadau gan ffynonellau gwahanol.

28. Yn 2020-21, cafwyd 44% o atgyfeiriadau am addasiadau tai eu gwneud gan therapyddion galwedigaethol sy'n ymwneud â gofal pobl. Y prif ffynonellau atgyfeirio eraill oedd asiantaethau Gofal a Thrwsio (16%), hunanatgyfeiriadau (12%) a gweithwyr cymdeithasol (8%). Mae'r categori "Arall" yn cynnwys atgyfeiriadau gan aseswyr dibynadwy, landlordiaid cymdeithasau tai, asiantaethau gwirfoddol, meddygon teulu, cynghorwyr lleol, y gwasanaeth ambiwlans, a Chynllun Cartrefi Clyd Nyth.

**Siart 2: Dosbarthiad addasiadau yn ôl ffynhonnell yr atgyfeiriad, 2020-21**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 29,878 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 1,385 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

## Yr amser a gymerodd i ddarparu addasiadau

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 25,532 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 5,731 o gofnodion (18%) â gwerthoedd dyddiad coll neu annilys na gwerthoedd yn nodi 0 diwrnod i gwblhau'r addasiad.**

29. Caiff nifer y diwrnodau a gymerir i ddarparu addasiad ei gyfrifo o'r amser y nodir bod angen addasiad i'r dyddiad y caiff ei gwblhau.

30. Mae Tabl 6 isod yn dangos yr amser a gymerodd i ddarparu addasiadau mewn misoedd. Yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, cafodd 84% o addasiadau eu darparu o fewn tri mis a chafodd 97% eu darparu o fewn blwyddyn. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer yr addasiadau a gymerodd fwy na dwy flynedd a hanner (30 mis) i'w darparu, o 2 i 24. Gellir priodoli hyn i oedi o ran gwaith presennol a achoswyd gan bandemig COVID-19

**Tabl 6: Yr amser a gymerodd i ddarparu addasiadau mewn misoedd, 2020-21**


| | Hyd at 3 mis | Rhwng 3 a 6 mis | Rhwng 6 a 12 mis | Rhwng 12 a 18 mis | Rhwng 18 a 24 mis | Rhwng 24 a 30 mis | Rhwng 30 a 36 mis | Mwy na 36 mis | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 21,482 | 1,805 | 1,409 | 613 | 150 | 49 | 18 | 6 | **25,532** |
| **Canran** | 84.1 | 7.1 | 5.5 | 2.4 | 0.6 | 0.2 | 0.1 | 0.0 | **100** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 25,532 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 5,731 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys na gwerthoedd yn nodi 0 diwrnod i gwblhau'r addasiad).

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 27,476 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 3,787 o gofnodion (12%) â gwerthoedd dyddiad coll neu annilys.**

31. Mae Siart 3 isod yn dangos nifer cyfartalog (canolrifol) y diwrnodau a gymerodd i ddarparu addasiad yn ôl maint yr addasiad. Cymerodd 7 diwrnod i ddarparu addasiad bach ar gyfartaledd, o gymharu ag 8 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol. Ar gyfartaledd, cymerodd 159 diwrnod i gwblhau addasiad canolig (o gymharu â 124 diwrnod yn 2019-20) a chymerodd 391 diwrnod i gwblhau addasiad mawr (o gymharu â 242 diwrnod yn 2019-20). Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i effaith pandemig COVID-19 ar ddarparu addasiadau mwy.

**Siart 3: Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerodd i ddarparu addasiad yn ôl maint yr addasiad, rhwng 2018-19 a 2020-21**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 27,476 o gofnodion ar gyfer 2020-21 (nid yw'n cynnwys 3,787 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

32. Mae Tabl 7 yn nodi nifer cyfartalog (canolrifol) y diwrnodau a gymerodd i ddarparu addasiadau yn ôl math o ddarparwr.

33. Roedd amseroedd darparu nodweddiadol yn 2020-21 yn amrywio o 6 diwrnod ar gyfer asiantaethau Gofal a Thrwsio, sy'n darparu addasiadau bach yn bennaf, i 65 diwrnod ar gyfer awdurdodau lleol a 79 diwrnod ar gyfer cymdeithasau tai. Efallai fod y cyfnodau hwy o amser a ddangosir yn Nhabl 7 yn adlewyrchu effaith pandemig COVID-19.

**Tabl 7: Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerodd i ddarparu addasiad yn ôl math o ddarparwr, rhwng 2018-19 a 2020-21**

| Math o ddarparwr | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Gofal a Thrwsio | 8 | 8 | 6 |
| Cymdeithas dai | 45 | 57 | 79 |
| Awdurdod lleol | 38 | 35 | 65 |


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 27,476 o gofnodion ar gyfer 2020-21 (nid yw'n cynnwys 3,787 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 27,274 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 3,989 o gofnodion (13%) â gwerthoedd dyddiad neu gost coll neu annilys.**

34. Mae Siart 4 yn dangos nifer cyfartalog (canolrifol) y diwrnodau a gymerodd i ddarparu addasiad yn ôl cost yr addasiad. Cyflwynir y costau mewn 10 band cost yn amrywio o hyd at £50 i £10,000 neu fwy.

35. Fel arfer, po fwyaf yw cost addasiad, yr hwyaf y bydd yn ei gymryd i'w ddarparu. Yn 2020-21, bu lleihad cyffredinol yn yr amser a gymerodd i ddarparu addasiadau a gostiodd £500 neu lai ond cynnydd yn yr amser a gymerodd i ddarparu addasiadau mwy costus.

**Siart 4: Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerodd o'r dyddiad y nodwyd yr angen am addasiad i'r dyddiad y cafodd ei gwblhau, yn ôl cost, rhwng 2018-19 a 2020-21**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 27,274 o gofnodion ar gyfer 2020-21 (nid yw'n cynnwys 3,989 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

## Cyllid

36. Caiff addasiadau tai eu cyllido o amrywiaeth o ffynonellau:

- Cynlluniau grant Llywodraeth Cymru:
  - Y Rhaglen Addasiadau Brys
  - Hwyluso
  - Grantiau Addasiadau Ffisegol
  - Rhaglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig
- Awdurdodau lleol (Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl)
- Awdurdodau lleol (Cyllid arall)
- Cymdeithasau tai traddodiadol (eu cyllid eu hunain)

- Cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (eu cyllid eu hunain)
- Ffynonellau eraill e.e. cyllid elusennol

37. Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn darparu cyllid cyfalaf i asiantaethau Gofal a Thrwsio i ddarparu mân addasiadau fel rampiau, canllawiau a gwelliannau o ran hygyrchedd er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac atal cwympiadau. Mae'n rhaid i waith gael ei gwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith.

38. Dyrennir cyllid grant Hwyluso i awdurdodau lleol fel adnodd hyblyg, yn bennaf i ddarparu addasiadau bach a chanolig heb fod angen defnyddio prosesau cymhleth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Cyflwynwyd y grant yn 2015 ac mae'n helpu i integreiddio gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol ac asiantaethau iechyd ar lefel leol a rhanbarthol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn comisiynu asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol i ddarparu addasiadau ar eu rhan, gan ddefnyddio cyllid Hwyluso a/neu eu cyllid eu hunain.

39. Mae Grantiau Addasiadau Ffisegol yn darparu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gymdeithasau tai traddodiadol (ond nid rhai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr) addasu eiddo tenantiaid. Mae'r addasiadau hyn yn galluogi tenantiaid i aros yn eu cartrefi ac yn darparu atebion ymarferol pan fydd amgylchiadau'n newid. Mae fersiwn safonol y grant yn darparu ar gyfer addasiadau mwy o faint a mwy cymhleth, ac mae'r fersiwn garlam yn darparu ar gyfer gwaith llai o faint. Gall cymdeithasau tai traddodiadol hefyd benderfynu cyllido addasiadau tai penodol o'u hadnoddau ariannol eu hunain.

40. Prif ddiben y Gronfa Gofal Integredig yw darparu cyllid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu tai â gofal (megis gofal ychwanegol a byw â chymorth) a llety gofal canolraddol. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio elfen ddewisol y gronfa i gefnogi cymhorthion, cyfarpar ac addasiadau tai. Asiantaethau Gofal a Thrwsio sydd wedi cael budd o'r elfen hon yn bennaf.

41. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Grantiau gorfodol ydynt, sydd ar gael i helpu pobl anabl a phobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain. Maent ar gael i bob deiliadaeth. Mae'r grant yn seiliedig ar brawf modd a bydd lefel y cyfraniad y bydd yn rhaid i ymgeisydd ei wneud tuag at gost y gwaith yn dibynnu ar ei incwm, cynilion a chostau. Nid yw grantiau ar gyfer plant anabl yn seiliedig ar brawf modd. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddisgresiwn i gyllido addasiadau o'u cyllidebau eu hunain.

42. Sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yw cymdeithasau tai a ffurfiwyd o ganlyniad i ddod yn berchnogion ar stoc dai rhai awdurdodau lleol. Ni all cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr wneud cais am gyllid Grantiau Addasiadau Ffisegol ond maent yn cael taliadau gwaddoli gan Lywodraeth Cymru i gynnal a chadw a gwella eu stoc dai, gan gynnwys darparu addasiadau. Gallant hefyd gyllido addasiadau o'u hadnoddau eu hunain a helpu tenantiaid i wneud cais am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl awdurdodau lleol.

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 29,977 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 1,009 o gofnodion (3%) â gwerthoedd cost neu ffrwd gyllido coll neu annilys.**

43. Mae Tabl 8 yn cymharu nifer, cyfran a chost gyfartalog (ganolrifol) yr addasiadau a ddarparwyd yn ôl ffynhonnell y cyllid.

**Tabl 8: Nifer, cyfran a chost gyfartalog yr addasiadau a ddarparwyd, yn ôl ffrwd gyllido, 2020-21**

| Ffrwd gyllido | Nifer | Canran | Cost gyfartalog £ |
|---|---|---|---|
| Y Rhaglen Addasiadau Brys | 11,488 | 38.3 | 100 |
| Cyllid Awdurdodau Lleol (Arall) | 5,922 | 19.8 | 194 |
| Llywodraeth Cymru (Hwyluso) | 4,513 | 15.1 | 146 |
| Cyllid Awdurdodau Lleol (Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Gorfodol) | 3,360 | 11.2 | 2,845 |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 1,766 | 5.9 | 99 |
| Cyllid Cymdeithasau Tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr | 1,125 | 3.8 | 189 |
| Llywodraeth Cymru (Grantiau Addasiadau Ffisegol) | 841 | 2.8 | 5,054 |
| Arall | 703 | 2.3 | 83 |
| Cyllid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Traddodiadol | 249 | 0.8 | 120 |
| Cyllid Elusennol | 10 | 0.0 | 1,425 |
| **Cyfanswm** | **29,977** | **100** | |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 29,977 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 1,009 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

44. Yn 2020-21, addasiadau bach a ddarparwyd drwy'r Rhaglen Addasiadau Brys oedd 38% o'r addasiadau a gofnodwyd â ffrwd gyllido ddilys, sef cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Efallai fod hyn yn adlewyrchu ffocws ar hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ystod pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar osod addasiadau canolig a mawr yn ystod cyfyngiadau'r pandemig. Bu gostyngiad yng nghanran yr addasiadau a ariannwyd drwy gyllid arall awdurdodau lleol, o 29% yn 2019-20 i 20% yn 2020-21.

45. Cost nodweddiadol addasiad a ariannwyd gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl awdurdodau lleol yn 2020-21 oedd £2,845, sy'n llai na'r gost gyfartalog a gofnodwyd yn 2019-20, sef £4,503. Gellir hefyd briodoli hyn i effaith pandemig COVID-19.


## Y canlyniad a ragwelwyd

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 30,809 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 454 o gofnodion (1%) â gwerthoedd canlyniad coll neu annilys.**

46. Mae'r canlyniadau'n sicrhau buddiannau i'r unigolion drwy wella ansawdd eu bywyd a'u hiechyd corfforol a/neu iechyd meddwl a'i llesiant. Gall defnyddio addasiadau hefyd helpu i leihau'r pwysau a'r galw ar y GIG drwy leihau'r rhesymau dros dderbyn cleifion i'r ysbyty, fel cwympiadau, a hwyluso'r broses o'u rhyddhau adref o'r ysbyty mewn modd amserol.

47. Mae Siart 5 yn dangos y prif ganlyniadau a ragwelwyd ar gyfer rhywun y gwnaed un addasiad neu fwy i'w gartref. Yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, y prif ganlyniad a ragwelwyd amlaf ar gyfer addasiad oedd 'atal cwympiadau' (a ragwelwyd mewn 42% o achosion), yna 'mwy o annibyniaeth mewn bywyd bob dydd' (a ragwelwyd mewn 34% o achosion). Er gwaethaf y ffocws polisi ar hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn ystod pandemig COVID-19, 'galluogi'r claf i gael ei ryddhau o'r ysbyty' oedd y prif ganlyniad a ragwelwyd mewn 11% o achosion yn 2020-21, sef cynnydd bach o gymharu â'r 9% o achosion a gofnodwyd yn 2019-20. Er bod y ffigurau hyn yn cynrychioli'r prif ganlyniad a ragwelwyd, mae nifer o fuddiannau yn bosibl. Er enghraifft, gall addasiad lle nodir mai atal cwympiadau yw'r prif ganlyniad a ragwelir hefyd helpu i atal derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i'r gwymp.

**Siart 5: Dosbarthiad addasiadau, yn ôl y prif ganlyniad a ragwelwyd, 2020-21**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 30,809 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 454 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys).

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad yn cynnwys 29,704 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 1,559 o gofnodion (5%) â gwerthoedd coll neu annilys o ran canlyniad neu faint yr addasiad.**

48. Mae Tabl 9 yn dangos bod y canlyniad a ragwelwyd yn amrywio yn ôl maint yr addasiad a ddarparwyd. Y prif ganlyniad a ragwelwyd ar gyfer bron hanner (48%) yr holl addasiadau bach oedd ‘atal cwympiadau’. Yn y cyfamser, rhagwelwyd ‘mwy o annibyniaeth mewn bywyd bob dydd’ ar gyfer y rhan fwyaf o addasiadau canolig a mawr (82% o addasiadau canolig a 90% o addasiadau mawr).

**Tabl 9: Dosbarthiad y prif ganlyniad a ragwelwyd, yn ôl maint yr addasiad, 2020-21**

| | Galluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty | Atal cwympiadau | Mwy o annibyniaeth mewn bywyd bob dydd | Mwy o fynediad i eiddo ac o'i amgylch | Atal derbyniadau i'r ysbyty | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bach | 13% | 48% | 23% | 0% | 15% | 100% |
| Canolig | 2% | 16% | 82% | 0% | 1% | 100% |
| Mawr | 4% | 6% | 90% | 0% | 0% | 100% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 29,704 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 1,559 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys)

49. Yn achos 15% o addasiadau bach, y prif ganlyniad a gofnodwyd oedd atal derbyniadau i'r ysbyty. Cafodd 13% o addasiadau pellach eu gosod er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Gyda'i gilydd, darparwyd 7,092 o addasiadau[5] er mwyn helpu i osgoi derbyniadau i'r ysbyty neu helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gynt. Mae hyn yn dangos y rôl y mae addasiadau yn ei chwarae o ran lleihau'r galw ar y GIG.

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 30,052 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 1,559 o gofnodion (5%) â gwerthoedd coll neu annilys o ran canlyniad neu faint yr addasiad.**

## Atal cwympiadau

50. Atal cwympiadau oedd y prif ganlyniad a ragwelwyd yn achos 12,914 o addasiadau y cofnodwyd ffrwd gyllido ar eu cyfer. O blith y 12,914 o addasiadau hynny, cafodd 43% eu cyllido gan y Rhaglen Addasiadau Brys a chafodd 42% eu cyllido gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio eu cyllid eu hunain neu grant Hwyluso Llywodraeth Cymru.

## Atal derbyniadau i'r ysbyty

51. Atal derbyniadau i'r ysbyty oedd y prif ganlyniad a ragwelwyd yn achos 3,911 o addasiadau y cofnodwyd ffrwd gyllido ar eu cyfer. Cafodd y rhan fwyaf o'r addasiadau hyn (66%) eu cyllido gan y Rhaglen Addasiadau Brys.

[5]Gan fod rhai unigolion o bosibl wedi cael mwy nag un addasiad, ni allwn adrodd ar nifer yr unigolion sydd wedi cael budd o addasiadau.

## Galluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty

52. Yn ogystal ag atal derbyniadau diangen i'r ysbyty o ganlyniad i gwympiadau, defnyddir addasiadau ta i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae hyn yn galluogi pobl i ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl. Mae hefyd yn helpu i ryddhau gwelyau ar ôl i driniaeth ddod i ben ac yn helpu i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal.

53. Rhyddhau o'r ysbyty oedd y prif ganlyniad a ragwelwyd yn achos 3,262 o addasiadau y cofnodwyd y ffrwd gyllido ar eu cyfer. Cafodd y rhan fwyaf o'r addasiadau hyn eu cyllido gan y Rhaglen Addasiadau Brys (55%) neu raglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig (25%).

## Boddhad cwsmeriaid

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 6,762 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 24,501 o gofnodion (78%) â gwerthoedd boddhad coll neu annilys.**

54. Roedd 6,762 o'r 31,263 o gofnodion yn cynnwys lefel boddhad neu anfodlonrwydd y cleient â'r gwaith a wnaed i osod yr addasiad(au). Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 22%, sy'n is na'r gyfradd ymateb yn 2019-20, sef 35%. Efallai fod hyn i'w briodoli i'r cyswllt cyfyngedig rhwng darparwyr addasiadau a chleientiaid o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar ymweld â chartrefi pobl eraill a gweithio ynddynt yn ystod pandemig COVID-19.

55. O blith y rhai a fynegodd lefel eu boddhad, dywedodd 98% o bobl (6,166) eu bod yn fodlon ar y gwaith a wnaed. Mae hyn yn gynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan ddywedodd 92% eu bod yn fodlon ar y gwaith a wnaed. Dywedodd 20 o unigolion eu bod yn anfodlon ar y gwaith a wnaed.

## Deiliadaeth


**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 31,124 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 139 o gofnodion (0.4%) â gwerthoedd deiliadaeth coll neu annilys.**

56. Mae Siart 6 isod yn dangos bod y rhan fwyaf o addasiadau (80%) wedi cael eu gosod mewn anheddau sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Mae'r ganran hon ychydig yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn 2019-20 (76%). Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 71% o'r holl stoc dai yn eiddo i berchen-feddianwyr, sy'n dangos bod y sector hwn o bosibl yn cael ei wasanaethu'n well na rhai eraill[6].

57. Cafodd 9% o addasiadau eu gosod mewn anheddau sy'n eiddo i'r awdurdod lleol a chafodd 9% eu gosod mewn anheddau sy'n eiddo i gymdeithasau tai (cymdeithasau tai traddodiadol neu'r rheini a grëwyd pan drosglwyddwyd stoc dai awdurdodau lleol). Amcangyfrifir bod 16% o'r holl stoc dai yng Nghymru yn eiddo i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig[5].

58. Dim ond 2% o addasiadau a osodwyd mewn cartrefi wedi'u rhentu'n breifat, er gwaethaf y ffaith yr amcangyfrifir bod cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat yn cyfrif am hyd at 13% o'r stoc dai yng Nghymru[5].

**Siart 6: Dosbarthiad addasiadau yn ôl deiliadaeth tai, 2020-21**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 31,124 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 139 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys)

[6] Canrannau amcangyfrifedig o'r stoc anheddau yn ôl blwyddyn a deiliadaeth (llyw.cymru)


## Cyfraniad ariannol

**DS: Mae'r dadansoddiad yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys 26,082 o gofnodion. Nid yw'n cynnwys 5,181 o gofnodion (17%) â gwerthoedd coll neu annilys o ran maint yr addasiad neu gyfraniad ariannol.**

59. Yn 2020-21, cofnodwyd bod cyfraniad ariannol wedi'i wneud mewn 171 o achosion (0.7%).

60. Mae Siart 7 isod yn dangos nifer y cyfraniadau ariannol a wnaed yn ôl maint yr addasiad. Gwnaed cyfraniad ariannol tuag at gyfran uwch o addasiadau canolig (68%) o gymharu ag addasiadau bach (24%) neu fawr (8%).

**Siart 7: Nifer yr addasiadau y gwnaed cyfraniad ariannol tuag atynt, yn ôl maint yr addasiad, 2020-21**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Yn cynnwys 26,082 o gofnodion (nid yw'n cynnwys 5,181 o gofnodion â gwerthoedd coll neu annilys)

61. Er nad yw'r Safonau Gwasanaeth[7] yn nodi'n benodol na ddylid codi tâl am addasiad neu fynnu cyfraniad tuag at y gost, maent yn nodi na ddylai addasiadau bach fod yn seiliedig ar brawf modd. Caiff nifer yr addasiadau bach sy'n denu cyfraniadau ariannol eu monitro drwy ddarparu data ar addasiadau yn y dyfodol.

[7] safonau-gwasanaeth-ar-gyfer-addasiadau-i-dai (llyw.cymru)